# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 1 Ebrill 2020

Amser y cyfarfod: 14.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/6267) yn:

http://senedd.tv/cy/6267

# 272

## Datganiad gan y Llywydd

Dechreuodd yr eitem am 14:00

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r Cyfarfod Llawn rhithwir cyntaf o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a dywedodd fod y Cyfarfod Llawn hwn, a gynhelir drwy gynhadledd fideo, yn unol â Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfystyr â thrafodion y Cynulliad at ddibenion Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Dywedodd y Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, y bydd darpariaethau Rheol Sefydlog 34 yn gymwys o ran cworwm, pleidlais wedi'i phwysoli a datgymhwyso'r gofynion ar gyfer cwestiynau llafar.

Rhoddodd hysbysiad, hefyd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.17, nad oedd yn ymarferol i'r cyfarfod gael ei ddarlledu'n fyw. Bydd recordiad ar gael ar Senedd TV cyn gynted â phosibl ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben a chyhoeddir cofnod o'r trafodion yn y ffordd arferol.

Cafodd yr Aelodai eu hatgoffa gan y Llywydd hefyd bod Rheolau Sefydlog yn ymwneud â threfniadau a threfn busnes yn y Cyfarfod Llawn yn gymwys i'r cyfarfod hwn.

## 1 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.03

## 2 Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws (Covid-19)

Dechreuodd yr eitem am 14.05

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Coronafeirws (Covid-19)

Dechreuodd yr eitem am 14.58

## 4 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru: Ymateb economaidd i Covid-19

Dechreuodd yr eitem am 15.58

## Datganiad gan y Llywydd

Diolchodd y Llywydd i'r Aelodau a'r swyddogion am eu gwaith wrth gynnal y sesiwn arbennig hon o'r Cyfarfod Llawn, a dywedodd bod atebolrwydd democrataidd yn parhau i wella, hyd yn oedd yn ystod yr adegau mwyaf heriol hyn ac y byddwn yn parhau i gynnal sesiynau rhithwir o'r Cyfarfod Llawn cyhyd ag y bydd angen.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.42

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am Time Not Specified, Dydd Mawrth, 7 Ebrill 2020**